WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

# Asesiad o Gynaliadwyedd Ariannol – **Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr**

Blwyddyn archwilio: 2019-20

Dyddiad cyhoeddi: Chwefror 2020

Cyfeirnod y ddogfen: 1696A2020-21

Paratowyd y ddogfen hon ar gyfer defnydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr fel rhan o waith a gyflawnir yn unol ag Adran 17 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 ac adran 18 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

Ni chymerir unrhyw gyfrifoldeb gan yr Archwilydd Cyffredinol na staff Swyddfa Archwilio Cymru mewn perthynas ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog neu gyflogai arall yn eu cymhwyster unigol, nac mewn perthynas ag unrhyw drydydd parti.

Os ceir cais am wybodaeth y gall y ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.
Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer o ran trin ceisiadau a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

# Cynnwys

Mae gan y Cyngor sefyllfa ariannol gref, ond byddai o fudd pe bai agweddau ar gynllunio ariannol a'i Strategaeth Ariannol Tymor Canolig yn cael eu cryfhau.


Adroddiad cryno

Crynodeb 4

Adroddiad manwl

Mae gan y Cyngor sefyllfa ariannol gref, ond byddai o fudd pe bai agweddau ar gynllunio ariannol a'i Strategaeth Ariannol Tymor Canolig yn cael eu cryfhau 6

Byddai o fudd pe bai Strategaeth Ariannol Tymor Canolig y Cyngor yn cael ei chryfhau mewn rhai meysydd pwysig 6

Dros y blynyddoedd diwethaf, mae'r Cyngor wedi tanwario'i holl gyllidebau blynyddol ac mae hefyd yn disgwyl tanwario'i gyllideb ar gyfer 2019-20 8

Mae gan y Cyngor hanes da o gyflawni'r rhan fwyaf o'i arbedion wedi'u cynllunio 9

Mae gan y Cyngor lefel uchel o gronfeydd wrth gefn defnyddiadwy 10

Mae gan y Cyngor hanes da o gasglu ei dreth gyngor 12

Mae gan y Cyngor lefel gymharol isel o fenthyciadau a chostau llog, ac nid yw wedi ceisio unrhyw fenthyciadau busnes hirdymor newydd ers 2012 13

# Adroddiad cryno

## Crynodeb

### Yr Hyn y gwnaethom ei adolygu a pham

1 Roedd y prosiect yn ceisio asesu cynaliadwyedd sefyllfa ariannol cynghorau yn y tymor byr a chanolig.

2 Roedd hyn yn cynnwys ffocws ar strategaeth ariannol pob cyngor yn ogystal ag adolygu rhai dangosyddion ariannol allweddol o sefyllfa ariannol pob cyngor mewn perthynas â’r canlynol:

- perfformiad yn erbyn y gyllideb
- cyflawni cynlluniau arbedion
- defnyddio cronfeydd wrth gefn
- y dreth gyngor; a
- benthyca.

3 Fe gynhaliom ni’r adolygiad yn ystod mis Tachwedd a mis Rhagfyr 2019.

Arddangosyn 1: ynglŷn â’r Cyngor



**Roedd cyllideb refeniw net y Cyngor ar gyfer 2019-20 yn £270.809m[1]**



**Mae’r Cyngor yn cyflogi tua 6,000 o bobl[2]**



**Roedd asedau sefydlog y Cyngor ar 31 Mawrth 2019 yn £534.538m[3]**


4 Fe gynhaliom ni’r asesiad hwn am ein bod wedi adnabod cynaliadwyedd ariannol fel risg i allu cynghorau i sefydlu trefniadau priodol i sicrhau gwerth am arian o ran defnyddio adnoddau. Yn rhannol, cafodd hyn ei oleuo gan brofiadau diweddar rhai cynghorau yn Lloegr, ein gwybodaeth am y sefyllfa ariannol mewn cynghorau yng Nghymru, a’r duedd gyffredinol bod adnoddau ar gyfer llywodraeth leol yn lleihau ar y cyd â galw cynyddol am rai gwasanaethau.

[1] Ffynhonnell: cyllideb gymeradwy’r Cyngor.

[2] Ffynhonnell: datganiad cyfrifon y Cyngor ar gyfer 2018-19.

[3] Ffynhonnell: datganiad cyfrifon y Cyngor ar gyfer 2018-19.

Arddangosyn 2: ffynonellau refeniw'r Cygnor [4]




## Yr hyn a ganfuom

5 Ar y cyfan, canfuom gan y Cyngor sefyllfa ariannol gref, ond y byddai o fudd pe bai agweddau ar gynllunio ariannol a'i Strategaeth Ariannol Tymor Canolig yn cael eu cryfhau. Daethom i'r casgliad hwn am y rhesymau canlynol:

- Byddai o fudd pe bai Strategaeth Ariannol Tymor Canolig y Cyngor yn cael ei chryfhau mewn rhai meysydd pwysig.
- Dros y blynyddoedd diwethaf, mae'r Cyngor wedi tanwario mewn perthynas â'i holl gyllidebau blynyddol ac mae hefyd yn disgwyl tanwario'i gyllideb ar gyfer 2019-20.
- Mae gan y Cyngor hanes da o gyflawni'r rhan fwyaf o'i arbedion wedi'u cynllunio.
- Mae gan y Cyngor lefel uchel o gronfeydd wrth gefn defnyddiadwy.
- Mae gan y Cyngor hanes da o gasglu ei dreth gyngor.
- Mae gan y Cyngor lefel gymharol isel o fenthyciadau a chostau llog, ac nid yw wedi ceisio unrhyw fenthyciadau busnes hirdymor newydd ers 2012.

[4] Source: the Council's 2018-19 statement of accounts.

# Adroddiad manwl

## Mae gan y Cyngor sefyllfa ariannol gref, ond byddai o fudd pe bai agweddau ar gynllunio ariannol a’i Strategaeth Ariannol Tymor Canolig yn cael eu cryfhau

### Byddai o fudd pe bai Strategaeth Ariannol Tymor Canolig y Cyngor yn cael ei chryfhau mewn rhai meysydd pwysig

#### Pam fod cynllunio ariannol strategol yn bwysig

6 Mae strategaeth ariannol eglur a chadarn yn bwysig i adnabod y lefel debygol o gyllid sydd ar gael i gyngor, yn ogystal â lefel ddisgwyliedig y galw am wasanaethau a chost eu darparu. O ystyried y pwysau o ran cyllid a fu’n ddiweddar ac a ragwelir ar gyfer yr holl gynghorau mae hefyd yn bwysig nodi sut y mae’n bwriadu ymateb i’r pwysau hynny, ac yn enwedig sut y bydd yn llenwi bylchau a ragwelir yn y cyllid.

#### Yr hyn a ganfuom

7 Canfuom fel a ganlyn:


- Mae gan y Cyngor Strategaeth Ariannol Tymor Canolig gymeradwy ar gyfer y cyfnod rhwng 2019-20 a 2022-23, sy’n darparu asesiad lefel uchel o’r heriau ariannol dros y cyfnod hwnnw.
- Mae’r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig yn cael ei diweddaru’n flynyddol, gan gael ei chymeradwyo ym mis Chwefror.
- Er bod y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig gyfredol yn darparu sylwebaeth ar rai pwysau gwario penodol, mae’n cynnwys atodlen o bwysau costau ar gyfer 2019-20 yn unig.
- Nid yw’r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig yn darparu amcanestyniadau manwl mewn perthynas â gweithgareddau a gwariant ar gyfer y pedair blynedd hyd at 2023.
- Nid yw’r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig yn gwerthuso perfformiad ariannol yn y gorffennol, megis tanwariannau cyllidebol a defnydd is na ragwelwyd o’i gronfeydd wrth gefn, y mae’r Cyngor wedi profi’r ddau ohonynt (gweler paragraffau 9 ac 14).
- Ar gyfer y pedair blynedd hyd at fis Mawrth 2023, mae’r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig yn nodi gofynion o ran arbedion (neu fwlch o ran cyllid) sydd rhwng £32.4 miliwn (y senario gorau) a £43.3 miliwn (y senario gwaethaf).
- Ers cymeradwyo’r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig gyfredol, fel rhan o’r adolygiad archwilio hwn darparodd y Cyngor hunanasesiad ar ein cyfer, sy’n

darparu ffigyrau diwygiedig sy'n dangos bwlch o ran cyllid o £28.9 miliwn (gweler Arddangosyn 3).

- Mae'r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig yn datgan y byddai'r Cyngor, ar gyfer 2019-20, yn codi ei ffioedd taladwy i lefel sydd 1% yn fwy na chyfradd chwyddiant. Nid yw'r Cyngor wedi sicrhau ffrydiau incwm newydd dros y blynyddoedd diwethaf, yr ydym yn deall ei fod yn ei archwilio yn 2020-21.
- Ym mis Rhagfyr 2019 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru gynnydd o 4.7% yng Ngrant Cynnal Refeniw'r Cyngor ar gyfer 2020-21. Mae'r setliad hwn yn llawer uwch na'r senario gorau ar gyfer setliad yn Strategaeth Ariannol Tymor Canolig gyfredol y Cyngor.
- Bydd goblygiadau'r cynnydd o 4.7% yn cael eu hystyried gan y Cabinet a'r Cyngor llawn yn ystod mis Chwefror 2020, fel rhan o gymeradwyo cyllideb 2020-21.

Arddangosyn 3: bwlch o ran y cyllid a ragamcanir

Ffynhonnell: [5].




[5] Ffynhonnell: hunanasesiad y cyngor.

## Dros y blynyddoedd diwethaf, mae'r Cyngor wedi tanwario'i holl gyllidebau blynyddol ac mae hefyd yn disgwyl tanwario'i gyllideb ar gyfer 2019-20

### Pam ei bod yn bwysig rhagweld gwariant yn gywir

8 Mae'n bwysig bod gorwariant a thanwariant yn cael eu cadw dan reolaeth a bod gwariant gwirioneddol mor agos â phosibl at y lefelau y cynlluniwyd ar eu cyfer. Mae Cyngor sy'n methu â rhagweld gwariant yn gywir a chynllunio'n gywir ar ei gyfer yn wynebu risg o greu pwysau ariannol nas rhagwelwyd a allai beryglu'r gallu i bennu cyllideb fantoledig. Gall patrymau sylweddol o danwariant fod yn lleihau gallu cyngor i gyflawni ei amcanion allweddol neu gyflawni ei gyfrifoldebau statudol.

### Yr hyn a ganfuom

9 Canfuom fel a ganlyn:

- Am y pedair blynedd hyd at 31 Mawrth 2019, mae'r Cyngor wedi tanwario'i gyllideb refeniw o £35.399 miliwn ac mae'n disgwyl tanwario cyllideb refeniw 2019-20 o £5.189 miliwn (gweler Arddangosyn 4). Dywedodd swyddogion wrthym fod cyfran sylweddol o danwariannau'r Cyngor wedi digwydd am ei fod wedi cael arian grant ychwanegol annisgwyl gan Lywodraeth Cymru. Mae'r Cyngor wedi tueddu i gael derbyniadau o'r fath tuag at ddiwedd blwyddyn ariannol. Er enghraifft, mae'r tanwariant o £5.189 a ragamcanir yn 2019-20 yn cynnwys £2.6 miliwn o gyllid grant annisgwyl, y byddai'r Cyngor wedi bod yn ymwybodol ohono wrth bennu a chymeradwyo'i gyllideb ar gyfer 2019-20.
- Am y pedair blynedd hyd at 31 Mawrth 2019, mae'r Cyngor wedi tanwario'i gyllideb cyfalaf o £17.479 miliwn ac mae'n disgwyl tanwario cyllideb gyfalaf 2019-20 o £20.771 miliwn. Rydym yn deall bod y tanwariannau hyn wedi digwydd yn bennaf o ganlyniad i lithriant wrth gyflawni rhai prosiectau cyfalaf, gyda chostau, ac felly'r gyllideb, yn trosglwyddo i flynyddoedd ariannol dilynol.
- Unwaith y mae blwyddyn ariannol wedi mynd heibio, caiff adroddiad alldro'r gyllideb ei ystyried gan y Cabinet ac yna gan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Corfforaethol. Fodd bynnag, er bod y Cyngor llawn yn cymeradwyo'r gyllideb flynyddol ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod, nid yw'n cael yr adroddiad blynyddol ar alldro'r gyllideb.

Arddangosyn 4: swm y gorwariant/tanwariant yn erbyn y cyllidebau refeniw cymeradwy[6]

**REFENIW (NET)**

| Blwyddyn ariannol | Cyllideb Wreiddiol y gyllideb refeniw net (£miliwn) | Alldro Gwirioneddol y gyllideb refeniw net (£miliwn) | Swm y (tanwariant) / gorwariant (£miliwn) | Canran y y (tanwariant) / gorwariant |
|---|---|---|---|---|
| **2015-16** | 252.210 | 243.009 | (9.201) | (3.6) |
| **2016-17** | 254.891 | 243.000 | (11.891) | (4.7) |
| **2017-18** | 258.093 | 251.639 | (6.454) | (2.5) |
| **2018-19** | 265.984 | 258.131 | (7.853) | (2.9) |
| **2019-20**[7] | 270.809 | 265.620 | (5.189) | (1.9) |
| **Cyfanswm** | **1,301.987** | **1,261.399** | **(40.588)** | **(3.1)** |

## Mae gan y Cyngor hanes da o gyflawni'r rhan fwyaf o'i arbedion wedi'u cynllunio

### Pam fod y gallu i adnabod a chyflawni cynlluniau arbedion yn bwysig

10 Mae'r gallu i adnabod meysydd lle gellir gwneud arbedion ariannol penodol, ac i wneud yr arbedion hynny wedyn, yn agwedd allweddol ar sicrhau cynaliadwyedd ariannol parhaus yn erbyn cefnlen o bwysau ariannol cynyddol. Lle nad yw cynlluniau arbedion yn cael eu cyflawni gall yn arwain at orwariannau sy'n golygu bod angen defnyddio cronfeydd wrth gefn cyfyngedig gan gynyddu lefel yr arbedion y mae eu hangen ar gyfer blynyddoedd yn y dyfodol i wneud iawn am hyn. Lle nad yw cynlluniau arbedion yn cael eu cyflawni a lle nad yw'n ofynnol i feysydd gwasanaeth wneud arbedion heb eu cynllunio, mae hyn yn cynyddu'r risg naill ai na fydd arbedion yn gyson â blaenoriaethau'r Cyngor, neu o ddatrysiadau 'byrdymor' nad ydynt yn gynaliadwy dros y tymor canolig.

### Yr hyn a ganfuom

11 Canfuom fel a ganlyn:

- Ym mis Medi 2019 fe gyhoeddom ni ein Hadroddiad Dilynol ar Gynllunio Arbedion.
- Daeth yr adroddiad i'r casgliad canlynol: 'Mae'r Cyngor wedi cryfhau'r trefniadau i lunio ac i gyflawni cynlluniau arbedion, ond mae angen iddo

[6] Ffynhonnell: yr adroddiad blynyddol ar alldro'r gyllideb a gyflwynir yn flynyddol i'r Cabinet ym mis Mehefin.

[7] Ffynhonnell: y sefyllfa a ragwelir ar ddiwedd y flwyddyn a gyflwynwyd i'r Cabinet ar 21 Ionawr 2020.

wneud mwy o waith i lunio strategaeth ariannol tymor canolig y gellir ei chyflawni'.

- Mae gan y Cyngor hanes da ar y cyfan o gyflawni'r rhan fwyaf o'i arbedion wedi'u cynllunio, er bod y targedau arbedion blynyddol wedi cael eu gostwng dros y blynyddoedd diwethaf a'u bod rhyw £5 miliwn yn is na'r rhai a bennwyd ar gyfer 2015-16.

Arddangosyn 5: arbedion a gyflawnwyd yn ystod 2018-19 fel canran o'r arbedion wedi'u cynllunio

| £6.123m | £5.615m | £0.508m | 91.7% |
|---|---|---|---|
| Cyfanswm yr arbedion wedi'u cynllunio | Arbedion wedi'u cynllunio a gyflawnwyd | Arbedion wedi'u cynllunio nas cyflawnwyd | Canran yr arbedion a gyflawnwyd |

## Mae gan y Cyngor lefel uchel o gronfeydd wrth gefn defnyddiadwy

### Pam ei bod yn bwysig rheoli cronfeydd wrth gefn yn gynaliadwy

12 Mae lefelau iach o gronfeydd wrth gefn defnyddiadwy yn rhwyd ddiogelwch bwysig i ategu cynaliadwyedd ariannol. Yn ogystal â bod ar gael i ariannu pwysau annisgwyl o ran cyllid, gall cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy fod yn ffynhonnell cyllid bwysig i ariannu mentrau 'buddsoddi i arbed' sydd wedi'u bwriadu i leihau cost barhaus darparu gwasanaethau hefyd. Mae cynghorau sy'n dangos patrwm o ddefnydd heb ei gynllunio o gronfeydd wrth gefn i lenwi bylchau yn ei gyllideb refeniw sy'n arwain at ostyngiadau ym malansau eu cronfeydd wrth gefn yn lleihau eu cydnerthedd i ariannu pwysau cyllidebol nas rhagwelwyd mewn blynyddoedd yn y dyfodol.

### Yr hyn a ganfuom

13 Canfuom fel a ganlyn:


- Yn seiliedig ar ffigyrau 2018-19, mae cronfeydd refeniw wrth gefn defnyddiadwy'r Cyngor yn ganran gymharol uchel o'r gyllideb refeniw net, sef 28.7% (gweler Arddangosyn 6).
- Ar gyfer y pedair blynedd hyd at 31 Mawrth 2019, mae cronfeydd refeniw wrth gefn defnyddiadwy'r Cyngor wedi cynyddu o £50.5 miliwn i £57.7 miliwn (gweler Arddangosyn 7).
- Ar gyfer y pedair blynedd hyd at 31 Mawrth 2019, mae cronfeydd derbyniadau cyfalaf wrth gefn y Cyngor wedi gostwng ychydig o £18.3 miliwn i £17.9 miliwn (gweler Arddangosyn 7).

Arddangosyn 6: lefel y cronfeydd refeniw wrth gefn o'i gymharu â'r gyllideb refeniw net



**£265.984m**

Cyllideb Refeniw Net [8]



**£57.751m**

Cyfanswm Cronfeydd wrth Gefn Defnyddiadwy [9]



**28.7%**

Cyfanswm Cronfeydd wrth Gefn Defnyddiadwy fel canran o'r Gyllideb Refeniw Net

Arddangosyn 7: cronfeydd defnyddiadwy ar ddiwedd y flwyddyn

Ffynhonnell: [10].

| Blwyddyn ariannol | Balans cronfeydd refeniw wrth gefn ar 31 Mawrth (£miliwn)* | Balans cronfeydd derbyniadau cyfalaf wrth gefn ar 31 Mawrth (£miliwn) | Cyfanswm (£miliwn) |
|---|---:|---:|---:|
| **2015-16** | 50.546 | 18.352 | 68.898 |
| **2016-17** | 58.436 | 21.364 | 79.800 |
| **2017-18** | 56.350 | 21.161 | 77.511 |
| **2018-19** | 57.751 | 17.922 | 75.673 |

*Mae'r balans cronfeydd wrth gefn sydd wedi'i gynnwys yn Arddangosyn 7 yn cynnwys cronfa cyfraniadau at y rhaglen gyfalaf wrth gefn i ariannu prosiectau cyfalaf penodol. Ar 31 Mawrth 2019 roedd balans y gronfa hon yn £14.072 miliwn.

[8] Source: the Council's approved budget.

[9] Source: the Council's 2018-19 statement of accounts (excluding capital receipts reserve and school reserves).

[10] Ffynhonnell: Datganiad cyfrifon y Cyngor (heb gynnwys cronfeydd wrth gefn a ddelir gan ysgolion).

# Mae gan y Cyngor hanes da o gasglu ei dreth gyngor

## Pam fod cyfraddau casglu'r dreth gyngor yn bwysig

14 Bydd methu â chasglu swm y dreth gyngor sy'n ddyledus i'r Cyngor yn arwain at lai o incwm. Gall hyn yn ei dro gynyddu'r pwysau ariannol ar y Cyngor a'i gwneud yn ofynnol iddo wneud arbedion ychwanegol. Er nad y dreth gyngor yw ffynhonnell cyllid fwyaf cynghorau yng Nghymru, mae'n dal i fod yn ffynhonnell incwm allweddol.

## Yr hyn a ganfuom

15 Canfuom fel a ganlyn:

- Ar gyfer 2018-19 roedd y Cyngor wedi casglu 96.8% o'r £76.2 miliwn a oedd yn gasgladwy (gweler Arddangosyn 8).
- Ar gyfer y pedair blynedd hyd at 31 Mawrth 2019 mae'r Cyngor wedi casglu £3.99 miliwn yn fwy o incwm o'r dreth gyngor nag yr oedd wedi cyllidebu i'w gael (gweler Arddangosyn 9). Mae'r refeniw hwn yn ychwanegol at y tanwariannau refeniw a nodir yn Arddangosyn 4.
- Mae'r dreth gyngor gasgladwy (Arddangosyn 8) yn uwch na'r incwm o'r dreth gyngor a gyllidebwyd gan y Cyngor am ei fod yn pennu elfen ar ffurf treth gyngor na ddisgwylir iddi gael ei thalu o fewn ei refeniw a gyllidebir.

## Arddangosyn 8: cyfraddau casglu'r dreth gyngor[11]



Roedd yr arian a gasglwyd o'r Dreth Gyngor ar 31 Mawrth 2019 yn 96.8% o'r debyd casgladwy o £76.2 miliwn

[11] Ffynhonnell: Stats Cymru.

Arddangosyn 9: swm y dreth gyngor a gasglwyd y tu hwnt i'r derbyniadau a gyllidebwyd, gorwariant/tanwariant yn erbyn y cyllidebau refeniw a chyfalaf cymeradwy[12]

| **Blwyddyn ariannol** | **Incwm o'r dreth gyngor y tu hwnt i'r incwm a gyllidebwyd (£miliwn)** |
|---|---|
| **2015-16** | 1.752 |
| **2016-17** | 0.974 |
| **2017-18** | 0.594 |
| **2018-19** | 0.670 |
| **Cyfanswm** | **3.990** |

## Mae gan y Cyngor lefel gymharol isel o fenthyciadau a chostau llog, ac nid yw wedi ceisio unrhyw fenthyciadau busnes hirdymor newydd ers 2012

### Pam ei bod yn bwysig cynnal lefelau benthyca cynaliadwy

16 Gall benthyca fod yn ffynhonnell cyllid werthfawr, er enghraifft i ariannu prosiectau cyfalaf ar raddfa fawr megis ysgolion neu ganolfannau hamdden newydd. Fodd bynnag, gall cost ad-dalu arian a fenthyciwyd gan gynnwys costau llog gael effaith hirdymor ar gyllidebau refeniw parhaus. Mae cynghorau sy'n methu â tharo cydbwysedd priodol rhwng manteision a chostau benthyca ar y naill law a'u cyllidebau refeniw rhagamcanol ar y llaw arall yn wynebu risg o leihau swm y cyllid sydd ar gael i ddarparu gwasanaethau. Mae benthyca i ariannu gweithgarwch masnachol yn cynnig y potensial i greu incwm ychwanegol i ariannu gwasanaethau'r cyngor; fodd bynnag, gall hefyd ddwyn risgiau sylweddol a fyddai'n gysylltiedig ag unrhyw weithgarwch masnachol.

### Yr hyn a ganfuom

17 Canfuom fel a ganlyn:

- Cafodd y Cyngor fenthyciad hirdymor newydd ym mis Mawrth 2012. Mae lefel fenthyca hirdymor y Cyngor yn gymharol isel.
- Mae lefel fenthyca fyrdymor y Cyngor wedi cynyddu ryw £1.5 miliwn yn y ddwy flynedd ddiwethaf.
- Mae costau llog y Cyngor yn isel fel canran o'i gyllideb refeniw net, ar 2.2%.

[12] Ffynhonnell: yr adroddiad blynyddol ar alldro'r gyllideb a gyflwynir yn flynyddol i'r Cabinet ym mis Mehefin.


- Nid oes gan y Cyngor unrhyw fuddsoddiadau masnachol ac felly nid yw unrhyw fenthyciadau sydd ganddo'n cael eu defnyddio i gefnogi buddsoddiadau o'r fath.

Arddangosyn 10: Lefelau benthyca'r Cyngor[13]



**£0m**

Swm y benthyciadau i ariannu buddsoddiadau masnachol



**2.2%**

Cost llog cyfanswm y benthyciadau fel cyfran o'r gyllideb refeniw net 2018-19

Arddangosyn 11: Lefelau benthyca'r Cyngor[14]

| Blwyddyn ariannol | Lefel fenthyca hirdymor ar 31 Mawrth (£miliwn) | Lefel fenthyca fyrdymor ar 31 Mawrth (£miliwn) | Cyfanswm (£miliwn) |
|---|---|---|---|
| **2015-16** | 97.434 | 0.960 | 98.394 |
| **2016-17** | 97.432 | 0.952 | 98.384 |
| **2017-18** | 97.412 | 2.623 | 100.035 |
| **2018-19** | 97.412 | 2.551 | 99.963 |

[13] Ffynhonnell: datganiad cyfrifon y Cyngor.

[14] Ffynhonnell: datganiad cyfrifon y Cyngor.

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone.: 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales
Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru